

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 64/2024
DYDDIAD CYHOEDDI: 8/08/2024



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth y DU: Adroddiad proffil Cymru 2024: Haf 2024 (gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin)

ISBN Digidol: 978-1-83625-488-1
© Hawlfraint y Goron

This document is also available in English.

Cyflwyniad



Cyflwyniad

Mae VisitEngland, VisitScotland a Croeso Cymru (Llywodraeth Cymru) wedi comisiynu arolwg olrhain teimladau defnyddwyr i ddeall bwriad domestig i gymryd gwyliau byr dros nos a gwyliau yn y DU a thramor, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhwystrau a'r pryderon presennol ynghylch teithio a sut y bydd y rhain yn esblygu dros amser.

Mae'r arolwg yn mynd i'r afael â'r canlynol: tebygolrwydd preswylwyr y DU o deithio; pryd a ble maent yn bwriadu mynd; manylion teithiau penodol megis y math o lety a'r gweithgareddau a wneir a'r math o sicrwydd y maent yn ei geisio gan y sector.

Mae'r traciwr yn seiliedig ar sampl cynrychioliadol y DU o 1,500 o oedolion 16+ oed gyda hwb i drigolion Cymru a'r Alban ddarparu samplau wythnosol cadarn. Mae'r arolwg wedi'i gynnal ers 18 Mai 2020.

Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata o fis Ebrill i fis Mehefin 2024. Mae hyn yn seiliedig ar waith maes sy'n digwydd ar y dyddiadau canlynol:

- **Ton Ebrill: 2il i 9fed Ebrill**
- **Ton Mai: 1af i 8fed Mai**
- **Ton Mehefin: 3ydd i 7fed Mehefin**

Lle bo'n berthnasol, caiff canlyniadau eu cymharu ag ymchwil cynharach a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod cyfatebol.

Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (1)

Yn yr adroddiad hwn rydym yn edrych ar broffiliau ac agweddau nifer o wahanol gynulleidfaoedd:

Mae'r diffiniadau a ddefnyddir yn cynnwys:

- **Ymgymeryddion tripiâu mis Ionawr i fis Mai:** Aelod o'r cyhoedd sydd wedi cymryd gwyliau yn y DU neu wyliau byr rhwng Ionawr a Mai 2024.
- **Bwriadwyr yr haf:** Aelodau o'r cyhoedd sy'n datgan bod eu gwyliau neu wyliau byr *nesaf* yn y DU rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024.

Mae'r tabl isod yn crynhoi meintiau sampl y cynulleidfaoedd allweddol sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn. Oherwydd meintiau sampl isel, nid yw data bwriadwyr Cymru wedi'i gymharu â 2023. Fodd bynnag, lle mae gwahaniaethau clir mae'r rhain wedi'u nodi yn y sylwebaeth.

Cynulleidfa	Maint y sampl
Preswylwyr y DU	1,755
Ymgymeryddion tripiâu yn y DU o fis Ionawr i fis Mai	1,153
Ymgymeryddion tripiâu yng Nghymru rhwng mis Ionawr a mis Mai	116
Bwriadwyr yr haf yn y DU	2,162
Bwriadwyr yr haf yng Nghymru	192

Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (2)

Er mwyn darparu proffiliau cliriach, rydym hefyd yn proffilio yn ôl cyfnod bywyd. Mae cyfnodau bywyd yn well nag 'oedran' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddiben yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r canlynol:

- **Annibynwyr iau:** 16-34 oed heb blant yn y cartref
- **Teuluoedd:** 16-64 oed gyda phlant yn y cartref.
- **Annibynwyr hŷn:** 35-64 oed heb unrhyw blant yn y cartref
- **Oedran ymddeol:** 65+ oed.

Sylwch nad yw pobl sy'n mynd ar deithiau bob amser yn teithio o fewn eu cyfnod bywyd – er enghraifft, gall 'teuluoedd' deithio heb eu plant. Fodd bynnag, mae cyfansoddiad cyfnod bywyd yn yrrwr dibynadwy i'w hymddygiad.

Er hwylustod, defnyddir y diffiniadau llety a ganlyn:

- **Llety â gwasanaeth:** Gwesty, Gwely a Brecwast, ffermdy neu fflat â gwasanaeth.
- **Hunanarlwyo masnachol:** Fflat/fflat gwyliau ar rent neu dŷ gwyliau wedi'i rentu neu mewn cartref preifat rhywun arall ar sail fasnachol.
- **Cartref preifat:** Ail gartref/cyfran gyfnodol neu gartref ffrindiau/perthynas.
- **Carafán/Gwersylla/Glampio:** Carafán deithiol neu fan gwersylla/cartref modur neu garafán sefydlog neu babell neu glampio/arall.
- **Llety arall:** Hostel neu fath arall o lety.

Canfyddiadau allweddol



Canfyddiadau allweddol (1)

Y dirwedd teithio domestig

1. Mae'r dirwedd teithio domestig ar gyfer 2024 yn ymddangos yn gymharol wastad o gymharu â 2023. Mae cyfran preswylwyr y DU sydd wedi cymryd taith hyd yn hyn eleni (rhwng Ionawr a Mai) bron yn union yr un fath â'r gyfran a wnaeth hynny y llynedd, a'r bwriad ar gyfer yr haf. (Gorffennaf i Fedi) hefyd yr un fath ag yn 2023.
2. Er gwaethaf y cysondeb hwn fodd bynnag, mae rhai arwyddion y gallai'r cyhoedd fod yn torri (neu'n dal) yn ôl. Mae cyfran y bwriadwyr teithiau domestig sydd 'eisoës wedi archebu' eu taith haf 2024 yn sylweddol is na'r gyfran a oedd wedi gwneud hynny yn yr un cyfnod yn 2023 (35% o gymharu â 41%), ac mae hyd teithiau cynlluniedig yn fyrrach nag yn 2023. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y gall teithiau haf gwirioneddol fod yn is na'r llynedd, a phan fyddant yn cael eu cymryd, maent yn fyrrach o ran hyd. Mae cymedroli tebygol eraill yn cynnwys symud tuag at 'lety rhatach', awydd am fwy o 'bethau am ddim i'w gwneud' a llai o wariant ar fwyta allan.
3. Mae'r argyfwng costau byw bron yn sicr yn effeithio ar yr ymddygiad hwn. Mae bron i 7 o bob 10 o'r boblogaeth yn ystyried eu hunain naill ai wedi eu 'taro'n galed' neu'n 'bod yn wylidwrus ac yn ofalus' o ganlyniad i'r argyfwng, ac mae dros hanner bwriadwyr teithiau yn cytuno'n bendant ei fod yn dylanwadu ar eu teithiau domestig dros nos. Gan danlinellu'r teimlad hwn, mae bron i hanner y rhai nad ydynt wedi mynd ar daith yn y 12 mis diwethaf yn cyfeirio at resymau ariannol wrth egluro pam nad ydynt wedi mynd ar daith.
4. Mae'n ymddangos bod bwriadwyr i Gymru yn arbennig o agored i bwysau ariannol. Mae 62% yn nodi bod costau byw yn debygol o ddylanwadu ar eu teithiau domestig, o gymharu â 56% ar draws y DU. Ymhellach, o holl gyrchfannau'r DU, Cymru yw'r mwyaf tebygol o ddenu ymwelydd sydd wedi cael ei 'daro'n galed' gan yr argyfwng costau byw, a'r ail leiaf tebygol o ddenu rhywun sy'n mynd ar daith sy'n 'well eu byd' neu 'heb ei effeithio ac yn hyderus'. Mae bwriadwyr haf Cymru hefyd yn un o'r rhai lleiaf tebygol o fod wedi archebu eu taith eisoes – sef 27%, sy'n sylweddol is na De Orllewin Lloegr (39%). Ar y daith, mae bwriadwyr Cymru yn fwy tebygol o chwilio am fwy o 'bethau am ddim i'w gwneud'.
5. Gall apêl teithio tramor hefyd fod yn llesteirio bwriadau domestig. Gan fod teithio domestig yn parhau'n wastad, mae'r gyfran sydd wedi mynd ar daith dramor eleni ac sy'n bwriadu mynd ar daith dramor yr haf hwn, ill dau wedi cynyddu o gymharu â 2023. Mae'r cynnydd mewn teithio tramor yn cael ei yrru'n rhannol gan ymddeolwyr, sy'n sylweddol yn fwy tebygol o fynd ar daith dramor na blwyddyn ynghynt.

Canfyddiadau allweddol (2)

Bwriad teithiau yng Nghymru

1. Yn gyson â bwriadau ar draws y DU, mae bwriadwyr yr haf yng Nghymru 2024 yn fwyaf tebygol o gael eu cymell i fynd ar daith dros nos i Gymru fel y gallant dreulio 'amser gyda'r teulu neu amser gyda fy mhartner' ac 'i ddianc rhag y cyfan a chael gorffwys'. Y tu hwnt i'r rhesymau hyn, mae apêl cefn gwlad Cymru yn arbennig o gryf – 'cysylltu â natur/bod yn yr awyr agored' yw'r trydydd cymhelliad pwysicaf, a 'cerdded, heicio neu grwydro' yw'r prif weithgaredd a gynllunnir ar daith i Gymru. Ymhlith y gweithgareddau amlwg eraill sy'n ymwneud â byd natur y mae 'archwilio ardaloedd golygfaol mewn car' a 'phrofiadau natur a bywyd gwyllt'.
2. Mae cyfran o fwriadwyr triplau i Gymru yn ceisio profiad 'egniol' ar eu taith i Gymru. 'Ar gyfer antur neu her' yw'r 5ed prif gymhelliant (19% yn nodi hyn), ac 'am wyliau egniol' yw'r 7fed (12%). Mae 'gweithgareddau antur' (18%), 'chwaraeon dŵr' (12%) a 'beicio neu feicio mynydd' (8%) i gyd ymhlith lleiafrif nodedig bwriadwyr teithiau.
3. Mae bwriadwyr i Gymru hefyd yn cael eu denu gan arlwy treftadaeth a diwylliant Cymru – mae 36% yn bwriadu 'ymweld â safleoedd treftadaeth' ac 20% i 'ymweld ag atyniadau diwylliannol'.
4. Mae bwriadwyr triplau i Gymru yn fwyaf tebygol o ragweld eu taith dros nos mewn 'tref glan môr traddodiadol' neu 'gefn gwlad neu bentref' er bod hyn yn amrywio fesul mis – y cyntaf mwyaf poblogaidd ym mis Medi, a'r olaf ym mis Gorffennaf ac Awst. Mae 'arfordir gwledig' a 'mynyddoedd neu fryniau' hefyd yn boblogaidd, eto gydag amrywiad fesul mis – 'arfordir gwledig' yn cael ei ffafrio ym mis Medi, 'mynyddoedd neu fryniau' ym mis Awst.
5. Yn gyson ag adroddiadau blaenorol, Eryri yw'r prif gyrchfan arfaethedig, gyda chyrchfannau eraill yng Ngogledd Cymru fel Llandudno a Bae Colwyn hefyd yn amlwg iawn. Er gwaethaf bwriadau cymharol isel i ymweld â 'dinas fawr', Caerdydd yw'r ail gyrchfan gynlluniedig fwyaf poblogaidd yng Nghymru – a'r un a ffefrir fwyaf ym mis Awst.
6. Mae tua hanner bwriadwyr teithiau i Gymru yn rhagweld y bydd eu taith haf i Gymru yn wyliau byr, mwy na'r gyfran sy'n disgwyl iddi fod yn daith hirach o 4+ noson. Mae teithiau yn fwy tebygol o fod yn fyrrach nag yn 2023, sy'n awgrymu bod pobl yn torri'n ôl ar eu gwariant ar deithiau.
7. Ymhlith bwriadwyr i Gymru, 'partner' yw'r aelod parti mwyaf cyffredin sy'n mynd yn gwmni ar daith (63% yn uwch nag ar draws y DU), ac yna 'plentyn, wyrion neu oedolion ifanc â rhieni' (38% ac yn codi i 57% ym mis Awst). Mae lleiafrif nodedig o fwriadwyr i Gymru hefyd yn debygol o deithio gyda 'ffrindiau' (16%) ac 'anifeiliaid anwes' (9%).
8. 'Llety â gwasanaeth' yw'r math mwyaf tebygol o lety ar gyfer taith i Gymru yr haf hwn, ac yna 'carafán/gwersylla' a 'rhentu eiddo masnachol'. Mae 'carafán/gwersylla' yn arbennig o gyffredin ym mis Awst (42%) ac ymhlith teuluoedd (47%).
9. Nid yw'n syndod o ystyried pa mor flaenllaw yw cyrchfannau gwledig, bod bwriadwyr i Gymru yn fwyaf tebygol o deithio i'w cyrchfan gan ddefnyddio eu car eu hunain – sef 70%, sy'n uwch nag ymhlith bwriadwyr y DU (54%). Trên yw'r ail ddull mwyaf cyffredin o deithio (17%).


**Teithiau domestig a
gymerwyd rhwng
Ionawr a Mai 2024**



Bwriadau trip domestig tri mis, archebion a theithiau a gymerwyd

- Mae bwriad teithiau domestig treigl wedi cynyddu'n gyson ers 2021. Mae bwriadau ar gyfer y mwyafrif o gyfnodau o 3 mis yn 2024 yn uwch na'r cyfnod cyfatebol yn 2023, yn yr un modd ag archebion teithiau gwirioneddol ar ddechrau pob cyfnod. Fodd bynnag, er gwaethaf y bwriadau cynyddol hyn, a pharhau â thuedd a welsom yn 2023, mae *teithiau gwirioneddol* a gymerwyd yn 2024 yn gyson yn fras â theithiau a gymerwyd flwyddyn ynghynt. Mae hyn yn golygu ein bod yn parhau i weld 'bwllch bwriad' cynyddol o ran bwriadau domestig.

Ffigur 1. Teithiau dros nos yn y DU a gynlluniwyd/archebwyd/a gymerwyd mewn cyfnodau o 3 mis, Canran ton-ar-don, y DU



QVB2a. Gan feddwl am eich gwyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU, pryd ydych chi'n debygol o fynd ar y daith hon? QVB2b. A phryd arall ydych chi'n rhagweld mynd ar wyliau neu wyliau byr yn y DU? Cwestiwn: QVB13a2. Ym mha rai o'r misoedd hyn ydych chi wedi cymryd gwyliau byr neu wyliau dros nos yn y DU yn ystod y 12 mis diwethaf? VB2enew: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pa mor agos ydych chi at archebu eich taith dros nos nesaf yn y DU? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr. n=c.1,750 pob ton




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Rhesymau dros beidio â mynd ar daith ddomestig dros nos yn ystod y 12 mis diwethaf

- Dw i'n torri'n ôl ar wariant' (26%) oedd y prif resymau dros beidio â gwneud hynny, y ddau wedi cynyddu ers yr adroddwyd ar hyn ddiwethaf ym mis Ionawr eleni. Gyda'i gilydd, sonnir am resymau ariannol fel rheswm dros beidio â mynd ar daith ymhlith bron i hanner y rhai nad ydynt yn mynd ar daith. Mae atyniad teithio rhyngwladol hefyd yn ymddangos yn gryf, gydag 1 o bob 6 yn nodi 'Fe es i dramor yn lle hynny'.

Ffigur 2. Rhesymau dros beidio â mynd ar daith dros nos yn y DU yn y 12 mis diwethaf, Canran, gwaith maes Ionawr a Mehefin, Preswylwyr y DU



VB13b. Pam nad ydych wedi cymryd gwyliau byr neu wyliau dros nos yn y DU yn ystod y 12 mis diwethaf?
Sylfaen: Ionawr n=604; Mehefin n=610

Teithiau dros nos yn y DU rhwng Ionawr a Mai



- Cymerodd bron i 3 o bob 10 (28%) o'r cyhoedd yn y DU wyliau byr neu wyliau dros nos yn y DU rhwng Ionawr a Mai eleni, cyfran bron yn union yr un fath â hynny yn yr un cyfnod yn 2023. Nid yw'n syndod bod ymgymerydd tripiau yn uwch rhwng mis Mawrth a mis Mai o gymharu â Ionawr a Chwefror.
- Roedd cyfran y cyhoedd yn y DU a aeth ar daith dramor rhwng Ionawr a Mai yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2023, gan awgrymu ymhellach y gallai teithio rhyngwladol fod yn effeithio ar deithiau domestig.

Ffigur 3. Cyfran a gymerodd drip dros nos yn y DU, Canran, gwaith maes Mehefin, y DU

Ffigur 4. Cyfran a gymerodd daith DRAMOR dros nos, Canran, gwaith maes Mehefin, y DU

■ Triplau a gymerwyd yn y DU 2023 ■ Triplau a gymerwyd yn y DU 2024


■ Triplau a gymerwyd DRAMOR 2023 ■ Triplau a gymerwyd DRAMOR 2024



Ble arhoswyd rhwng Ionawr a Mai ar daith ddomestig dros nos

- Fel yn 2023, De-orllewin Lloegr oedd y gyrchfan yr ymwelwyd â hi fwyaf yn y DU ar gyfer taith ddomestig dros nos rhwng Ionawr a Mai. Arhosodd 7% o'r rhai a aeth ar daith yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwnnw – hefyd yn gyson â 2023, a chydag amrywiad bychan fesul mis.


Ffigur 5. Ble arhoswyd ar daith dros nos yn y DU rhwng Ionawr a Mai, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, Cyfran o Fwriadwyr y DU




Cyfnod bywyd a statws ariannol ymgymmerwyr tripliau yng Nghymru ar daith rhwng Ionawr a Mai

- Roedd ychydig dros draean (35%) o'r bobl a aeth ar daith yng Nghymru rhwng mis Ionawr a mis Mai yn rhan o'r cyfnod bywyd Teuluoedd, sy'n gymharol gyson â 2023, ac yn uwch na chyfartaledd cyffredinol y DU.
- Mae'n ymddangos bod yr argyfwng costau byw wedi effeithio'n fwy negyddol ar ymgymmerwyr teithiau yng Nghymru yn 2024 nag ymgymmerwyr teithiau yn 2023, ac ymgymmerwyr tripliau yn y DU o fewn yr un cyfnod. Mae hyn yn cyd-fynd â naratif ehangach bod ymgymmerwyr teithiau yng Nghymru yn debygol o fod yn fwy cost-sensitif na'r rhai sy'n aros mewn mannau eraill yn y DU.

Ffigur 6. Dadansoddiad o'r boblogaeth a theithiau yn ôl cyfnod bywyd, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU



Ffigur 7. Effaith argyfwng costau byw ymhlith ymgymmerwyr teithiau, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU



Ffynhonnell: Demograffeg. Sylfaen: poblogaeth y DU n=5,271; Wedi cymryd taith yng Nghymru Ionawr i Mai 2023 n= 116; Wedi cymryd taith yng Nghymru Ionawr i Mai 2024 n= 115; Wedi cymryd taith yn y DU Ionawr i Mai 2024 n= 1,153. *Sylwer oherwydd meintiau sylfaen isel, mae cymariaethau rhwng 2023 a 2024 yn ddangosol yn unig




**Bwriadau teithio
domestig a thramor –
haf 2024**




Bwriadau teithiau dros nos yn y DU a thramor

- Gan edrych i'r dyfodol, mae dros hanner (55%) o'r cyhoedd yn y DU yn bwriadu cymryd gwyliau byr domestig yr haf hwn (Gorffennaf i Fedi), cyfran bron yn union yr un fath â'r llynedd. Mae bwriad y daith ar ei uchaf ym mis Awst a mis Medi – y ddau gyda thua 1 o bob 4 o'r boblogaeth.
- Mae 3 o bob 10 o'r boblogaeth yn bwriadu cymryd gwyliau tramor yn y cyfnod hwnnw – y bwriad yn sylweddol uwch nag yn 2023.

Ffigur 8. Cyfran sy'n rhagweld mynd ar unrhyw deithiau yn y DU dros nos, Canran, gwaith maes Mehefin, y DU



Ffigur 9. Cyfran sy'n rhagweld mynd ar unrhyw deithiau TRAMOR dros nos, Canran, gwaith maes Mehefin, y DU




VB2a/cc. Gan feddwl am y gwyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU/tramor rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y daith hon? VB2b/ch. A phryd arall ydych chi'n rhagweld mynd ar wyliau neu wyliau byr yn y DU/tramor?


Statws archebu teithiau ar gyfer teithiau arfaethedig yn y DU a thramor

- Ym mis Mehefin 2024, dim ond lleiafrif (35%) o'r rhai sy'n bwriadu teithiau haf yn y DU sydd eisoes wedi archebu eu teithiau haf. Yn fwyaf nodedig, mae'r gyfran sydd wedi archebu eu teithiau yn is na'r cyfnod cyfatebol yn 2023, sy'n awgrymu nid yn unig ei bod yn debygol y bydd y bwllch bwriad yn parhau eleni, ond y gallai fod hyd yn oed yn fwy.
- Hefyd, yn nodedig, mae teithiau haf tramor arfaethedig yn sylweddol fwy tebygol o fod wedi'u 'harchebu eisoes' na theithiau domestig dros nos yn yr un cyfnod, sy'n awgrymu, o ystyried y dewis rhwng y ddau, fod teithiau domestig yn fwy tebygol o gael eu haberthu.

Ffigur 10. Statws archebu taith dros nos yn y DU, Canran, gwaith maes Ionawr, y DU



Ffigur 11. Statws archebu taith dros nos TRAMOR, Canran, gwaith maes Ionawr, y DU




VB2e/g. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pa mor agos ydych chi at archebu eich taith dros nos nesaf yn y DU/TRAMOR yn <NODWCH MIS O VB2a(III)>? Bwriadwyr yr haf yn y DU 2023 n=946; Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024 n=854; Bwriadwyr yr haf tramor 2023 n=496; Bwriadwyr yr haf tramor 2024 n=466


Demograffeg y rhai sy'n bwriadu teithio yn y DU a thramor

- Mae proffil cyfnod bywyd bwriadwyr haf yn y DU 2024 bron yn union yr un fath â phroffiliau yn 2023, ac eithrio cynnydd bach yn nifer Ymddeolwyr. Mae'r cynnydd yn nifer Ymddeolwyr yn amlycach fyth ymhlith bwriadwyr teithiau tramor, gan danlinellu eu bod yn sbarduno'r twf cyffredinol mewn cynlluniau i deithio dramor.
- Mae proffiliau cyfnod bywyd yn amrywio yn ôl mis taith arfaethedig yn y DU. Nid yw'n syndod bod Teuluoedd yn dominyddu ym mis Awst (47%), tra bod Annibynwyr hŷn ac Ymddeolwyr yn ffurfio'r cyfnodau bywyd mwyaf ym mis Medi (32% a 27% yn y drefn honno).

Ffigur 12. Dadansoddiad o boblogaeth a bwriadwyr y DU yn ôl cyfnod bywyd, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU



Ffigur 13. Dadansoddiad o'r boblogaeth a bwriadwyr TRAMOR yn ôl cyfnod bywyd, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU



Ffynhonnell: Cwestiynau demograffig.


Sylfaen: Yr holl ymatebwyr. Poblogaeth y DU n=5,271; Bwriadwyr yr haf yn y DU 2023 n=2,402; Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024

n=2,848; Bwriadwyr yr haf tramor 2023 n=1,489; Bwriadwyr yr haf tramor 2024 n=1,688

Ble y cynllunir aros ar y daith nesaf yn y DU

- De-orllewin Lloegr yw'r gyrchfan a ffefir fwyaf ar gyfer taith haf, gyda ffafriaeth yn gyson â 2023. Mae bron i 1 o bob 10 o'r bwriadwyr triplau yn y DU yn cynllunio taith dros nos yng Nghymru - yn union yr un fath â'r gyfran a gynlluniodd hyn yn 2023, a gydag ychydig iawn o amrywiad ar draws misoedd yr haf.
- Mae bron i draean o fwriadwyr yng Nghymru sy'n breswylwyr yn bwriadu mynd ar daith dros nos yng Nghymru (hefyd yn union yr un fath â 2023). Yn nodedig, De-orllewin Lloegr yw'r ardal fwyaf dewisol nesaf yn y DU ar gyfer preswylwyr o Gymru.

Ffigur 14. Lle y bwriedir aros ar daith dros nos nesaf yn y DU o fis Gorffennaf i fis Medi 2024, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, Canran Bwriadwyr y DU



QVB4a. Ble yn y DU ydych chi'n debygol o aros ar y daith nesaf hon yn <NODER MIS O VB2(III)>?


Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr rhwng bwriadwyr yr haf 2023 n=2,145; bwriadwyr yr haf 2024

n=1,976

Statws archebu taith arfaethedig yn y DU fesul cyrchfan

- Dim ond 27% o fwriadwyr yr haf yng Nghymru sydd eisoes wedi archebu eu taith – sy'n is na'r mwyafrif o gyrchfannau eraill y DU, yn enwedig De-orllewin Lloegr (39%). Mae hyn yn awgrymu y gallai'r 'bwloch bwriad' ar gyfer Cymru fod yn fwy na'r bwloch cyffredinol ar draws y DU.
- Yn gadarnhaol, mae 2 o bob 5 (40%) arall wedi penderfynu mynd i Gymru er nad ydynt wedi archebu eto, ond mae traean heb benderfynu i ble y byddant yn cymryd y daith o gwbl.

Ffigur 15. Statws archebu taith dros nos yn y DU yn ôl cyrchfan, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU




VB2e/g. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pa mor agos ydych chi at archebu eich taith dros nos nesaf yn y DU/TRAMOR yn <NODWCH MIS O VB2a(III)>? Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024. Llundain n=307; Gorllewin Canolbarth Lloegr n=115; Gogledd-orllewin Lloegr n=226; Dwyrain Canolbarth Lloegr n=92; De-orllewin Lloegr n=422; De-ddwyrain Lloegr n=186; Swydd Efrog a Humber n=214; Cymru n=227; Gogledd-ddwyrain Lloegr n=97; Yr Alban n=307

Lefelau ymrwymiad teithiau haf arfaethedig yn y DU fesul cyrchfan

- Er gwaethaf archebion gwirioneddol isel, mae'r lefelau ymrwymiad ar gyfer mynd ar daith i Gymru yr haf hwn yn gymharol uchel ar 48% – dim ond ymrwymiad De-orllewin Lloegr a De-ddwyrain Lloegr sy'n uwch.

Ffigur 16. Lefelau ymrwymiad yn y DU dros nos, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU




VB2ei. Pa mor ymroddedig ydych chi i gymryd y daith nesaf hon yn <NODWCH MIS O VB2A>? Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024. Llundain n=307; Gorllewin Canolbarth Lloegr n=115; Gogledd-orllewin Lloegr n=226; Dwyrain Canolbarth Lloegr n=92; De-orllewin Lloegr n=422; De-ddwyrain Lloegr n=186; Swydd Efrog a Humber n=214; Cymru n=227; Gorllewin Canolbarth Lloegr n=97; Yr Alban n=307



Demograffeg bwriadwyr yr haf ar draws cyrchfannau

- Mae proffil cyfnod bywyd bwriadwyr yr haf yng Nghymru yn weddol debyg i gyrchfannau eraill yn y DU – y cyfnod bywyd Teuluoedd mwyaf. Fodd bynnag, fel ar lefel y DU, mae amrywiad fesul mis unigol – Teuluoedd yn gwneud y mwyafrif ym mis Awst (57%), ond yn fwy cyffredin Annibynwyr Hŷn ac Ymddeolwyr ym mis Medi (37% a 23% yn y drefn honno).

Ffigur 17. Dadansoddiad o fwriadwyr cyrchfan yr haf yn ôl cyfnod bywyd, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU



Ffynhonnell: Demograffeg.


Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024. Llundain n=307; Gorllewin Canolbarth Lloegr n=115; Gogledd-orllewin Lloegr n=226; Dwyrain Lloegr n=92; De-orllewin Lloegr n=422; De-ddwyrain Lloegr n=186; Swydd Efrog a Humber n=214; Cymru n=227; Gogledd-orllewin Lloegr n=97; Yr Alban n=307



Effaith argyfwng costau byw ar fwriadwyr ar draws cyrchfannau

- Mae Cymru ar fin denu'r cyfrannau uchaf o fwriadwyr sydd wedi cael eu 'taro'n galed' gan yr argyfwng costau byw a'r ail isaf ar y cyd 'heb eu heffeithio' neu yn 'well eu byd' (dim ond De-orllewin Lloegr yn is). Mae hyn yn awgrymu bod Cymru'n cael ei gweld fel cyrchfan sy'n addas ar gyfer ymwelydd llai cefnog.

Ffigur 18. Effaith yr argyfwng costau byw ar gyllid fesul cyrchfan ymhlith bwriadwyr yr haf, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU




C17. Mae llawer o sôn wedi bod am sut mae'r 'argyfwng costau byw' wedi effeithio ar amgylchiadau ariannol pobl. Pe bai'n rhaid dewiswch, pa UN o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio orau eich teimladau am eich sefyllfa eich hun, ar hyn o bryd?

Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yn yy DU 2024. Llundain n=307; Gorllewin Canolbarth Lloegr n=115; Gogledd-orllewin Lloegr n=226; Dwyrain Lloegr n=92; De-orllewin Lloegr n=422; De-ddwyrain Lloegr n=186; Swydd Efrog a Humber n=214; Cymru n=227; Gorllewin Canolbarth Lloegr=97; Yr Alban n=307

Effaith costau byw ar deithiau dros nos yn y DU

- Mae 3 o bob 5 (62%) o fwriadwyr yr haf yng Nghymru yn nodi bod yr argyfwng costau byw yn debygol o ddylanwadu ar eu gwyliau byr neu wyliau yn y DU yn ystod y chwe mis nesaf. Yn unol â data ar y dudalen flaenorol, mae'r effaith ar fwriadwyr yng Nghymru yn uwch na bwriadwyr yr haf o bob rhan o'r DU. Y prif effeithiau ymhlith bwriadwyr yr haf yng Nghymru a'r DU yw 'chwilio am fwy o bethau am ddim i'w gwneud', 'dewis llety rhatach' a 'gwario llai ar fwyta allan'.

Ffigur 19. Effaith costau byw ar deithiau dros nos, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU



Ffigur 20. Effaith 'costau byw' ar wyliau a gwyliau byr yng Nghymru a'r DU, Canran, gwaith maes Ebrill i Fehefin, y DU, y 10 Uchaf




VB7f: I wirio, a yw'r 'argyfwng costau byw' yn debygol o ddylanwadu ar eich gwyliau byr neu wyliau yn y DU yn ystod y chwe mis nesaf? Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yng Nghymru 2024 n=227; Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024 n=2,162. VB7iii. Sut, os o gwbl, fydddech chi'n dweud bod yr 'argyfwng costau byw' yn debygol o ddylanwadu ar eich gwyliau byr neu wyliau yn y DU yn ystod y chwe mis nesaf? Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yng Nghymru 2024 n=139; Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024 n=1,225.


Effaith costau byw ar deithiau dydd yn y DU

- Mae tua hanner preswylwyr o Gymru a'r DU yn rhagweld yr argyfwng costau byw yn dylanwadu ar eu teithiau dydd – 'gwario llai ar fwyta allan', 'chwilio am fwy o bethau am ddim i'w gwneud' a 'theithio pan fo'n rhatach' yw'r prif effeithiau canfyddedig.

Ffigur 21. Effaith costau byw ar deithiau dydd, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU



Ffigur 22. Effaith 'costau byw' ar deithiau dydd yng Nghymru a'r DU, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU, y 10 Uchaf




VB7fi: A yw'r 'argyfwng costau byw' yn debygol o ddylanwadu ar eich teithiau dydd yn y DU yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf? Sylfaen: preswylwyr o Gymru n=611; Preswylwyr y DU n=5,271. VB7Cii. Sut, os o gwbl, fydddech chi'n dweud bod yr 'argyfwng costau byw' yn debygol o ddylanwadu ar eich teithiau dydd yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf? Sylfaen: preswylwyr o Gymru n=329; Preswylwyr y DU n=2,618

Demograffeg a tharddiad bwriadwyr Cymru

- Bwriadwyr yr haf yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o fyw gerllaw yng Ngogledd-orllewin Lloegr, Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Mae cynrychiolaeth bwriadwyr teithiau o Gymru a Gogledd-orllewin Lloegr wedi cynyddu ers 2023.
- Yn nodedig, mae bwriadwyr o ranbarthau sy'n agosach at Gymru (Gogledd-orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Chymru) yn fwy tebygol o ddatgan eu bod wedi cael eu heffeithio'n negyddol gan yr argyfwng costau byw. Mae hyn yn awgrymu y gallai eu sefyllfa ariannol fod yn gyrru eu dewis o gyrchfan taith dros nos gerllaw.

Ffigur 23. Dadansoddiad o'r boblogaeth a bwriadwyr yn ôl rhanbarth preswlyio, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU




Ymddygiad a phroffiliau teithiau yng Nghymru - haf 2024



Cymhellion teithiau ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU – Y Deg Uchaf

- Mae bwriadwyr yr haf 2024 yng Nghymru yn fwyaf tebygol o gael eu hysgogi i fynd ar daith dros nos yng Nghymru fel y gallant dreulio ‘amser teulu neu amser gyda fy mhartner’ ac ‘i ddianc rhag y cyfan a chael gorffwys’. Y tu hwnt i'r cymhellion hyn, maent hefyd yn cael eu hysgogi i ymweld gan awydd ‘i gysylltu â natur’, ‘teithio i rywle newydd’ ac ‘am antur neu her’ – pob un yn uwch nag ar draws y DU.
- Wedi'u hysgogi gan gyfnod bywyd, mae cymhellion yn amrywio fesul mis unigol – ‘i ddianc rhag y cyfan’ a ‘chysylltu â natur’ gryfaf ym mis Medi; ‘cyffro neu hwyl’ ac ‘antur neu her’ y cryfaf ym mis Awst.

Ffigur 24. Cymhellion ar gyfer gwyliau yng Nghymru a'r DU a gwyliau byr yn yr haf, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU, y Deg Uchaf




Cwestiwn: VB6fii. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich cymhellion ar gyfer y daith hon?

28 Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yng Nghymru 2024 n=192; Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024 n=2,162

Gweithgareddau teithiau ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU – Y Deg Uchaf

- Y gweithgareddau bwriedig mwyaf poblogaidd ar gyfer bwriadwyr yr haf yng Nghymru yw ‘cerdded, heicio neu grwydro’, ‘rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol’ ac ‘ymweld â safleoedd treftadaeth’ – pob un yn uwch nag ar draws y DU. Mae ‘archwilio ardaloedd golygfaol mewn car’ a ‘profiadau natur a bywyd gwyllt’ hefyd yn nodwedd gref, ac yn uwch nag ar gyfer holl deithiau yn y DU.
- Mae bwriadwyr i Gymru ym mis Awst yn bwriadu gwneud ystod ehangach o weithgareddau na bwriadwyr mewn misoedd eraill

Ffigur 25. Gweithgareddau ar wyliau yng Nghymru a'r DU a gwyliau byr yn yr haf, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU, Y Deg Uchaf




Cwestiwn: VB6fiii. Pa rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi'n debygol o'u gwneud ar eich gwyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU yn <NODWCH MIS O VB2A>? Sylfaen: Bwriadwyr haf yng Nghymru 2024 n=192; Bwriadwyr haf yn y DU 2024 n=2,162



Gweithgareddau trip ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU - Arall

- Mae amrywiaeth o weithgareddau mwy arbenigol ar y gweill hefyd ymhlith bwriadwyr Cymru gan gynnwys 'profi'r bywyd nos', 'ymweld â lleoliadau sy'n cael sylw mewn teledu, ffilm neu lenyddiaeth' a 'beicio neu feicio mynydd'.

Ffigur 26. Gweithgareddau ar wyliau yng Nghymru a'r DU a gwyliau byr yn yr haf, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU, Arall



Cwestiwn: VB6fiii. Pa rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi'n debygol o'u gwneud ar eich gwyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU


30 yn <NODWCH MIS O VB2A>? Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yng Nghymru 2024 n=192; Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024 n=2,162



Math o gyrchfan ar gyfer gwyliau byr neu wyliau haf nesaf yng Nghymru

- Mae'r bwriadwyr teithiau yng Nghymru yn fwyaf tebygol o ragweld eu taith dros nos mewn 'tref glan môr traddodiadol' neu 'gefn gwlad neu bentref' er bod hyn yn amrywio fesul mis – y cyntaf mwyaf poblogaidd ym mis Medi, a'r olaf ym mis Gorffennaf ac Awst. Mae 'arfordir gwledig' a 'mynyddoedd neu fryniau' hefyd yn boblogaidd, eto gydag amrywiad fesul mis – 'arfordir gwledig' yn cael ei ffafrio ym mis Medi, 'mynyddoedd neu fryniau' ym mis Awst. Mae'r bwriad i fynd ar daith i 'ddinas fawr' neu 'ddinas neu dref lai' ill dau yn gymharol isel.

Ffigur 27. Prif fath o gyrchfan ar gyfer taith nesaf yng Nghymru ym mis Gorffennaf a mis Medi, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU




QVB5a. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfannau rydych chi'n debygol o aros ynddynt yn ystod eich taith yn y DU? Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yng Nghymru 2024 n=192; Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024 n=2,162

Cyrchfan arfaethedig yng Nghymru yr haf hwn ymhlith bwriadwyr Cymru

- Yn gyson ag adroddiadau blaenorol, Eryri yw'r prif gyrchfan arfaethedig ar gyfer taith dros nos yng Nghymru yr haf hwn, gyda chyrchfannau eraill yng Ngogledd Cymru fel Llandudno a Bae Colwyn hefyd yn amlwg iawn. Er gwaethaf bwriadau cymharol isel i ymweld â 'dinas fawr', Caerdydd yw'r ail gyrchfan gynlluniedig fwyaf poblogaidd yng Nghymru – a'r un a ffeirir fwyaf ym mis Awst.
- Mae bwriadau wedi'u lledaenu ar draws Cymru, gyda Chanolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog y pedwerydd mwyaf dewisol a Sir Benfro yn bumed.

Ffigur 28. Cyrchfan Cymru arfaethedig ar gyfer y daith nesaf rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU




QVB4viii. Ble yng Nghymru ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau nesaf neu'r gwyliau byr hwn?

Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yng Nghymru 2024 n=192

Hyd y daith ar wyliau byr neu wyliau haf nesaf yng Nghymru

- Mae tua hanner bwriadwyr Cymru yn rhagweld y bydd eu taith haf i Gymru yn wyliau byr, mwy na'r gyfran sy'n disgwyl iddi fod yn daith hirach o 4+ noson. Yn gyffredinol, mae teithiau yn fwy tebygol o fod yn fyrrach nag yn 2023, sy'n awgrymu bod pobl yn torri'n ôl ar eu gwariant ar deithiau.

Ffigur 29. Hyd y daith nesaf yng Nghymru rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU




VB3. A yw'r daith nesaf hon yn <NODWCH MIS O VB2A> yn debygol o fod yn wyliau byr (1-3 noson) neu'n wyliau (4+ noson)? VB6f. A pha un o'r canlynol sy'n disgrifio pwrpasau y daith hon orau? Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yng Nghymru 2024 n=192; Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024 n=2,162

Cyfansoddiad y parti ymwelwyr ar gyfer taith dros nos nesaf yn ystod yr haf yng Nghymru

- Ymhlith bwriadwyr Cymru, 'partner' yw'r aelod parti sy'n dod gyda'r grŵp mwyaf cyffredin ar gyfer taith (63% yn uwch nag ar draws y DU), ac yna 'plentyn, wyrion neu oedolion ifanc â rhieni' (38% ac yn codi i 57% ym mis Awst). Mae lleiafrif nodedig o fwriadwyr Cymru hefyd yn debygol o deithio gyda 'ffrindiau' (16%) ac 'anifeiliaid anwes' (9%).

Ffigur 30. Cyfansoddiad partion ymwelwyr ar gyfer bwriadwyr Cymru ym mis Gorffennaf a mis Medi, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU




QVB4d. Gyda phwy ydych chi'n debygol o fod yn treulio'ch gwyliau?

Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yng Nghymru 2024 n=192; Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024 n=2,162

Math o lety ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Nghymru

- ‘Llety â gwasanaeth’ (gan gynnwys gwestai, gwely a brecwast, ffermdy a fflatiau â gwasanaeth) yw'r math o lety sydd fwyaf tebygol ar gyfer taith yng Nghymru yr haf hwn, ac yna ‘carafán/gwersylla’ a ‘rhentu eiddo masnachol’. Mae ‘carafán/gwersylla’ yn arbennig o gyffredin ym mis Awst (42%) ac ymhlith Teuluoedd (47%).
- Mae'r canrannau mawr yn nodi, gan nad yw'r rhan fwyaf o'r bwriadwyr wedi archebu eu taith eto, eu bod yn dal i ystyried opsiynau lluosog.

Ffigur 31. Dewis llety ar gyfer y daith dros nos nesaf ar gyfer darparwyr Cymru ym mis Gorffennaeth a Medi, Canran net, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU, Categoriâu cywasgedig




QVB6a. Pa fath/au o lety ydych chi'n disgwyl aros ynddo yn ystod eich taith yn y DU yn <rhoch y mis>?

Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yng Nghymru 2024 n=192; Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024 n=2,162

Math o lety ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Nghymru – Y Deg Uchaf

- Y math o lety sengl mwyaf cyffredin a fwriedir ar gyfer teithiau haf yng Nghymru yw ‘gwesty/motel/tafarn’ (yn arbennig o uchel ym mis Gorffennaf a mis Medi) ac yna ‘carafán sefydlog – nad ydych chi’n berchen arni’ (yr uchaf ym mis Medi). Mae ‘tŷ llety/gwely a brecwast’ a ‘chartrefi ffrindiau neu berthnasau’ hefyd yn opsiynau poblogaidd.

Ffigur 32. Dewis llety ar gyfer y daith dros nos nesaf ar gyfer bwriadwyr Cymru ym mis Gorffennaf a mis Medi, Canran net, Gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y Du, y Deg Uchaf



QVB6a. Pa fath/au o lety ydych chi'n disgwyl aros ynddo yn ystod eich taith yn y DU yn <rhwygch y mis>?

36 Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yng Nghymru 2024 n=192; Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024 n=2,162




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Math o lety ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Nghymru – arall

- Mae amrywiaeth o opsiynau llety eraill hefyd yn cael eu hystyried gan fwriadwyr Cymru, gan gynnwys ‘ffermdy’, ‘ail gartref/cyfran gyfnodol’ a ‘glampio/llety amgen’.

Ffigur 33. Dewis llety ar gyfer y daith dros nos nesaf ar gyfer bwriadwyr yng Nghymru ym mis Gorffennaf a mis Medi, Canran net, Gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU, Arall



QVB6a. Pa fath/au o lety ydych chi'n disgwyl aros ynddo yn ystod eich taith yn y DU yn <rhwygch y mis>?

Sylfaen: Bwriadwyr yr haf yng Nghymru 2024 n=192; Bwriadwyr yr haf yn y DU 2024 n=2,162

Y prif ddull o deithio ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Nghymru

- Nid yw'n syndod o ystyried pa mor flaenllaw yw cyrchfannau gwledig, bod bwriadwyr Cymru yn fwyaf tebygol o deithio i'w cyrchfan gan ddefnyddio eu car eu hunain – sef 70%, sy'n uwch nag ymhlith bwriadwyr y DU (54%). Trên yw'r ail ddull mwyaf cyffredin o deithio.

Ffigur 34. Prif ddull trafnidiaeth ar gyfer bwriadwyr yr haf yng Nghymru 2024, Canran, gwaith maes mis Ebrill i fis Mehefin, y DU



Methodoleg



Methodoleg

Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar arolwg ar-lein misol a gynhaliwyd ymhlith sampl cynrychioliadol cenedlaethol o boblogaeth y DU.

Mae'r sampl yn gynrychioliadol o oedolion 16+ oed y DU yn ôl rhyw, oedran, rhanbarth llywodraeth a gradd gymdeithasol.

Yn y cam cyntaf, caiff sampl craidd cynrychioliadol cenedlaethol o 1,500 ei recriwtio a'i gyfweld. Yna caiff y sampl hwn ei 'hybu' yng Nghymru a'r Alban i sicrhau meintiau sylfaen digonol ar gyfer dadansoddi cenedl ar wahân. Yna caiff y data eu pwysoli i wneud y sampl yn gynrychioliadol o'r DU yn gyffredinol ac o fewn pob gwlad.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canlyniadau a gymerwyd o Donau 69-71 o'r Astudiaeth Dracio Ddomestig o Sentiment am Deithio.